Amodau a Thelerau
Llogi Bwyd ac Ystafelloedd

Yn y ddogfen hon mae 'ni' yn golygu Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a 'chi' yn golygu'r sawl sydd yn archebu'r gynhadledd. Darllenwch yr amodau a thelerau canlynol yn ofalus. Rhaid i chi ymrwymo i'r amodau hyn.

1. Sut i archebu
Cysylltwch â gwas-ymwelwyr@llgc.org.uk neu 01970 632800.
Os yw'r dyddiadau y gofynnwch amdanynt ar gael, gyrrwn ffurflen archebu atoch a neilltuo'r dyddiad i chi am 14 diwrnod.

2. Archebu Dros Dro
Rhaid cadarnhau archeb dros dro ar lafar neu'n ysgrifenedig cyn pen 14 diwrnod. Rhaid cwblhau'r ffurflenni archebu ystafell ac arlwyo a'u dychwelyd atom o leiaf 14 diwrnod gwaith cyn eich digwyddiad.

2a. Oriau agor
Oriau agor y Llyfrgell yw :
9.30 a.m. – 6.00 p.m. Dydd Llun i ddydd Gwener; 9.30 a.m. – 5.00 p.m. Dydd Sadwrn
Mae'r Llyfrgell ar gau ar ddydd Sul.

3. Blaendâl
Nid oes angen blaendâl.

4. Prisiau
Rydym yn dyfynnu'r holl brisiau ar sail y costau sy'n berthnasol ar yr adeg pan wneir yr archeb. Fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig os bydd cynnydd i'r prisiau fydd yn effeithio arnoch. Mae'n bosib y byddwn yn codi tâl ychwanegol pe bydd angen cyflogi mwy o staff ar gyfer eich digwyddiad. Mae'n bosib y bydd angen mwy o staff ar gyfer digwyddiadau gyda'r nos (ar ôl 6.15pm) neu ar ddydd Sadwrn. Byddwn yn codi tâl o £10.00 yr awr tuag at gostau staffio os yw'r bwffe / cinio mewn cyfarfod i nifer llai na 10 o bobl.

5. Treth ar Werth
Nid yw prisiau llogi ystafelloedd yn ddarostyngedig i TAW. Nid yw'r prisiau bwyd yn cynnwys TAW, ac ychwanegir TAW ar y raddfa arferol.

6. Talu
Cyflwynir anfonebau ar ôl y digwyddiad, a rhaid eu talu cyn pen 30 diwrnod arôl dyddiad yr anfoneb.

7. Pe ddymunwch ganslo
Rhaid i chi roi gwybod yn ysgrifenedig neu ar ebost i Lyfrgell Genedlaethol Cymru am bob achos o ganslo. Bydd y taliadau canslo canlynol yn berthnasol:

Methu â chyrraedd / Methu â rhoi rhybudd o ganslo yn golygu talu **swm llawn** o'r gost archebu.

Pythefnos neu lai o rybudd yn golygu talu **80%** o swm llawn y gost archebu.

Rhwng pedair wythnos a phythefnos o rybudd yn golygu **60%** o gyfanswm cost yr archeb i'w dalu.

8. Os ydyn ni'n canslo

Os ydyn ni'n gorfod canslo unrhyw archeb am unrhyw reswm y tu hwnt i'n rheolaeth, rhown wybod o leiaf 3 diwrnod cyn eich digwyddiad. Cadwn (Llyfrgell Genedlaethol Cymru) yr hawl i ddiddymu archeb ar unrhyw adeg am y rhesymau canlynol:

Os bydd LlGC ar gau am unrhyw reswm sydd y tu hwnt i'w rheolaeth, o fewn rheswm.
Os byddwch chi'n ddarostwng i newid mewn rheolaeth, ac yn sgil hynny yn mynd yn fethdalwr, ac yn methu â thalu'ch dyledion, neu fel arall yn peidio i fodoli fel achos gweithredol. Os byddwch chi'n mynd yn fethdalwr, neu'n marw.
Os byddwch chi'n fwy na 30 diwrnod yn hwyr o ran unrhyw ddyled i LlGC.
Os bydd gennym reswm i'ch ystyried chi, neu aelod o'ch grŵp, yn anaddas neu'n amhriodol.

9. Newidiadau

Rhaid i chi ein hysbysu ynghylch unrhyw newid i nifer eich grŵp dros y ffôn, drwy ebost neu drwy lythyr.
Mae'n rhaid i ni dderbyn eich niferoedd terfynol cyn pen 7 niwrnod gwaith cyn eich digwyddiad.

Codwn dâl yn y sefyllfaoedd a ganlyn:

Methu â chyrraedd / Os na roddir wybod bod y nifer yn y grŵp wedi gostwng- codwn **gost llawn** yr archeb wreiddiol.

Os rhoir 48 awr neu lai o rybudd, cedwn yr hawl i godi'r pris llawn, yn cynnwys y sawl sydd ddim yn mynychu.
Os rhoir pythefnos neu lai o rybudd cyn y digwyddiad – codwn **80%** o gost yr archeb wreiddiol.

Os rhoddir rhwng pedair wythnos a phythefnos cyn y digwyddiad – codwn **60%** o gost yr archeb wreiddiol.
Dilynwn y cynllun a nodwch ar eich ffurflen archeb ar gyfer yr ystafell gynadledda, a darparwn yr offer fel yr archebwyd ar eich ffurflen. Ni fydd modd newid cynllun yr ystafell ar y diwrnod, o reidrwydd, na chwaith ddarparu offer nas archebwyd o flaen llaw.

10. Difrodi / Colli eiddo

Ni fyddwn yn atebol am unrhyw ddifrod neu golled o ran Eiddo, Pethau Gwerthfawr nac Arian chi na'ch parti.
Darperir parcio talu ac arddangos yn y Llyfrgell Genedlaethol ar gyfrifoldeb perchnogion y ceir.
Codir £1.00 am hyd at 4 awr a £2.00 am fwy na 4 awr.

11. Cyfarpar LlGC
CHI sy'n gyfrifol am unrhyw ddarn o gyfarpar a benthycwch am y cyfnod nes i chi ei ddychwelyd. Byddwn yn codi pris llawn prynu cyfarpar o'r newydd os collir neu ddifrodir yr offer tra yn eich gofal, yn ogystal â'i gost ar yr archeb wreiddiol.

12. Gweithgareddau Dadleuol
Wrth archebu, rhaid i chi ein hysbysu am unrhyw weithgareddau dadleuol allai ddigwydd oherwydd eich presenoldeb yn y Llyfrgell a fedrai peryglu enw da Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

13. Polisi Ysmygu
13.1 Ni chaniateir ysmygu unrhywle yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw strwythurau ac adeiladau ar dir y Llyfrgell Genedlaethol ac unrhyw gerbydau ar dir y Llyfrgell Genedlaethol.

13.2 Caniateir anweddu (defnyddio sigaret electronig neu e-sigaret) 10 metr i ffwrdd o'r prif adeilad

13.3 Darperir biniau ysbwriel mewn mannau penodol ar dir y Llyfrgell

14. Drwm
Ni chaniateir bwyd na diod y tu mewn i'r Drwm. Caniateir bwyd yn Atriwm y DRWM yn unig.

Dychweler yr holl ffurflenni llogi at:

Adran Gwasanaethau Cyhoeddus
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU
01970 632800
ebost: gwas-ymwelwyr@llgc.org.uk